Ysgol Gyfun Gŵyr
Gorau byw cyd-fyw

Ysgol Gyfun Gŵyr
Stryd Talbot
Tregŵyr
SA4 3DB
www.yggwyr.org.uk
01792 872403
ysgolgyfungwyr@yggwyr.swansea.sch.uk

Ebrill 2026

Annwyl Rhiant/Gofalwyr,

Wrth i ni ddechrau tymor olaf y flwyddyn ysgol, hoffwn estyn croeso cynnes yn ôl i chi ac edrych ymlaen at gyfnod prysur a llwyddiannus arall i'n dysgwyr. Mae'r tymor hwn yn gyfle pwysig i adeiladu ar y cynnydd cadarn a wnaed hyd yma, ac i sicrhau bod pob dysgwr yn parhau i ddatblygu a ffynnu yn academaidd ac yn bersonol. Hoffwn hefyd dynnu eich sylw at rai materion pwysig a rhannu diweddariadau gyda chi. Wythnos hanner tymor fydd o Ddydd Llun 25 Mai tan Ddydd Gwener 29 Mai, a bydd gŵyl y banc ar Ddydd Llun 4 Mai. Fe fydd y flwyddyn ysgol yn dod i ben i ddysgwyr ar Ddydd Gwener 17 Gorffennaf.

Hoffwn hefyd gymryd y cyfle i ddathlu llwyddiannau niferus y tymor diwethaf. Cafwyd Eisteddfod ysgol lwyddiannus iawn gyda chyfranogiad arbennig gan ddisgyblion ar draws yr ysgol, ac mae nifer fawr o unigolion a grwpiau bellach yn paratoi i gynrychioli'r ysgol yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Ynys Môn dros yr hanner tymor. Yn ogystal, mae dros 100 o ddisgyblion wedi cystadlu mewn cystadlaethau cerddorol, drama a dawns ar lefel leol a sirol. Mae'r tymor hefyd wedi bod yn un llwyddiannus iawn ym maes chwaraeon, gyda llwyddiannau ar lefel sirol a chenedlaethol mewn amrywiaeth o ddisgyblaethau. Mae'r ystod o lwyddiannau mor eang fel ei bod yn anodd enwi pob gweithgaredd a thîm unigol, ac mae hyn yn dyst i ymrwymiad a thalent ein dysgwyr ar draws nifer fawr o chwaraeon. Yn ogystal â hyn, cafodd disgyblion gyfleoedd gwerthfawr i gymryd rhan mewn profiadau ehangach megis y daith sgïo i Awstria a theithiau addysgol i Wlad yr Iâ a Berlin, sydd wedi cyfrannu'n sylweddol at eu datblygiad personol, eu hyder a'u dealltwriaeth o'r byd. Mae'r profiadau hyn, ynghyd ag ymroddiad ein staff, yn rhan greiddiol o'r hyn sy'n gwneud profiad addysgol ein dysgwyr yn un cyfoethog ac unigryw yma yn Ysgol Gyfun Gŵyr. Rydym yn hynod falch o'n dysgwyr a'r



Gwobr Cwricwlwm Ysgolion
Schools Curriculum Award
QS
Heartbeat Award
Gwobr Curiad Calon
The Dyslexia Friendly School Standards
NPFA SportsMarc
Investors in People | Buddsoddwyr Mewn Pobl
We Are A … Fairtrade School
Rydyn Ni'n Ysgol… Masnach Deg

ffordd y maent yn cynrychioli'r ysgol. Hoffwn hefyd longyfarch disgyblion Blwyddyn 11 ar eu canlyniadau mathemateg ym mis Ionawr, sy'n dangos potensial arbennig ar gyfer yr haf.

Fe fydd cyfnod arholiadau allanol yn cychwyn ar 7 Mai. Bydd gwersi yn parhau i ddysgwyr Blynyddoedd 11–13 tan Ddydd Gwener 22 Mai, ac felly pan nad oes arholiadau ganddynt, disgwylir iddynt fynychu gwersi er mwyn paratoi'n effeithiol. Bydd arholiadau mewnol Blynyddoedd 10 a 12 yn cael eu cynnal ar ôl hanner tymor. Dymunwn bob llwyddiant i'n holl ddysgwyr dros y cyfnod pwysig hwn; mae'n gyfle iddynt ddangos eu hymroddiad a'u cynnydd, ac rydym yn hyderus y byddant yn cyflawni i safon uchel.

Ein nod fel ysgol yw parhau i ddatblygu dysgwyr sy'n gyfrifol ac yn annibynnol, sy'n barod ar gyfer y camau nesaf yn eu haddysg a'u bywydau. Mae ymddygiad cadarnhaol a pharchus yn ganolog i hyn, ac mae partneriaeth gref rhwng yr ysgol a'r cartref yn hanfodol er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau i bob plentyn. Trwy weithio gyda'n gilydd, gallwn feithrin diwylliant lle mae parch, ymdeimlad o berthyn a balchder yn ganolog i brofiad pob dysgwr. Rydym yn gwerthfawrogi eich cefnogaeth barhaus ac yn edrych ymlaen at weithio gyda chi mewn ysbryd o gydweithio er lles pob dysgwr.

Byddem yn gwerthfawrogi eich cefnogaeth i sicrhau bod eich plentyn yn gwisgo'r wisg ysgol briodol bob dydd. Mae bwriad gennym godi safonau gwisg ysgol ymhellach; fodd bynnag, mae'n bwysig bod hyn yn cael ei wneud mewn ffordd gydweithredol a chynhwysol. Yn ystod y tymor hwn, byddwn yn dechrau drwy wrando ar lais y dysgwyr ar y dydd Llun cyntaf yn ôl, cyn ystyried barn rhieni, staff a llywodraethwyr. Ein nod yw sicrhau bod gwisg yr ysgol yn meithrin ymdeimlad cryf o berthyn a balchder ymhlith ein dysgwyr, wrth gynnal safonau uchel.

Mae presenoldeb yn ffactor allweddol wrth sicrhau llwyddiant pob dysgwr, ac rwy'n falch o nodi bod cyfradd presenoldeb yr ysgol hyd yma yn gryf, sef tua 92%, sy'n gosod yr ysgol ymhlith y gorau yn y sir. Mae'n bwysig ein bod yn cynnal y safon hon dros weddill y flwyddyn ysgol, ac felly gofynnwn yn garedig i chi sicrhau bod eich plentyn yn mynychu'r ysgol ar bob diwrnod posibl. Anogwn rieni i beidio â threfnu gwyliau yn ystod y tymor.

Pennaeth Gweithredol: Mrs Sara Thomas
Stryd Talbot, Tre-gŵyr, Abertawe, SA4 3DB Ffôn: (01792) 872403
E-bost: ysgol.gyfun.gwyr@swansea-edunet.gov.uk | https://www.yggwyr.org.uk

Ysgol Gyfun Gŵyr
Gorau byw cyd-fyw

Fel rhan o'n datblygiadau digidol parhaus, o 17 Ebrill 2026 ni fydd yr ysgol bellach yn defnyddio ClassCharts, a byddwn yn symud i system wybodaeth reoli newydd, Bromcom. Mae hyn yn cynnwys ap rhieni My Child at School (MCAS) ac Ap Myfyrwyr penodol Bromcom. Bydd y system newydd yn galluogi rhieni a dysgwyr i gael mynediad at wybodaeth allweddol megis presenoldeb, ymddygiad, amserlenni, gwybodaeth asesu a chyfathrebiadau ysgol drwy un platfform diogel. Mae cyfarwyddiadau ar sut i lawrlwytho ac actifadu'r ap MCAS eisoes wedi'u rhannu gyda rhieni, ac mae dysgwyr wedi derbyn canllawiau ar sut i gael mynediad i Ap Myfyrwyr Bromcom. Gofynnwn yn garedig i bob rhiant a dysgwr sicrhau bod yr ap perthnasol wedi'i osod cyn 17 Ebrill er mwyn sicrhau trosglwyddiad effeithiol. Os oes angen unrhyw gymorth arnoch, cysylltwch â swyddfa'r ysgol yn y lle cyntaf, a bydd aelod o staff yn hapus i'ch cynorthwyo.

Hoffwn hefyd ddiolch i'r rhai ohonoch sydd eisoes wedi cyfrannu at y Gronfa Ysgol Wirfoddol, ac annog eraill i ystyried gwneud hynny os yn bosibl. Mae'r cyfraniadau hyn yn werthfawr iawn wrth sicrhau parhad addysg o'r safon uchaf i'n dysgwyr.

Yn olaf, gofynnwn yn garedig i rieni a gofalwyr gysylltu â'r ysgol yn ystod oriau gwaith arferol pan mae hynny'n bosibl. Os ydych yn dymuno cyfarfod wyneb yn wyneb ag aelod o staff, gofynnwn i chi drefnu apwyntiad ymlaen llaw. Wrth gwrs, os oes mater brys, rydym yn deall ac yn croesawu cysylltiad ar unwaith.

I gloi, hoffwn ddiolch i chi am eich cefnogaeth barhaus. Trwy gydweithio, gallwn sicrhau bod pob dysgwr yn cyrraedd ei lawn botensial ac yn teimlo'n falch o fod yn rhan o'n cymuned ysgol. Edrychwn ymlaen at dymor olaf llwyddiannus arall.

I gael y newyddion diweddaraf a gweld llwyddiannau'r ysgol, dilynwch ein tudalen Facebook: https://facebook.com/yggwyr

Yn gywir,

Sara Thomas

Pennaeth Gweithredol

Pennaeth Gweithredol: Mrs Sara Thomas
Stryd Talbot, Tre-gŵyr, Abertawe, SA4 3DB Ffôn: (01792) 872403
E-bost: ysgol.gyfun.gwyr@swansea-edunet.gov.uk | https://www.yggwyr.org.uk

Gwobr Cwricwlwm Ysgolion Schools Curriculum Award · Heartbeat Award Gwobr Curiad Calon · The Dyslexia Friendly School Standards · SportsMarc · Investors in People | Buddsoddwyr Mewn Pobl · We Are A... Fairtrade School Rydyn Ni'n Ysgol... Masnach Deg

Ysgol Gyfun Gŵyr
Gorau byw cyd-fyw

Dear Parents/Carers,

As we begin the final term of the school year, I would like to extend a warm welcome back and look forward to another busy and successful period for our learners. This term provides an important opportunity to build on the strong progress made so far and to ensure that every learner continues to develop and thrive both academically and personally. I would also like to draw your attention to some important information and updates. The half-term break will take place from Monday 25 May to Friday 29 May, and there will be a bank holiday on Monday 4 May. The school year will end for learners on Friday 17 July.

I would also like to take this opportunity to celebrate the many successes of the past term. We held a highly successful school Eisteddfod with excellent participation from pupils across the school, and many individuals and groups are now preparing to represent the school at the National Eisteddfod in Ynys Môn during half term. In addition, over 100 pupils have competed in musical, drama and dance competitions at local and county level. The term has also been very successful in sport, with achievements at both county and national level across a range of disciplines. The breadth of these successes makes it difficult to highlight every activity and team individually, and this reflects the commitment and talent of our learners across so many sports. Pupils have also benefited from valuable wider experiences, including the ski trip to Austria and educational visits to Iceland and Berlin, which have contributed significantly to their personal development, confidence and global understanding. These experiences, along with the dedication of our staff, are central to the rich and unique educational experience we offer at Ysgol Gyfun Gŵyr. We are extremely proud of our learners and the way they represent the school. I would also like to congratulate our Year 11 pupils on their excellent mathematics results in January, which demonstrate strong potential for the summer examinations.

The external examination period will begin on 7 May. Lessons will continue for Years 11–13 until Friday 22 May, and when pupils are not in examinations, they are expected to attend lessons to support their preparation. Internal examinations for Years 10 and 12 will take place after half term. We wish all our learners every success during this important period and are confident they will achieve to a high standard.

Our aim as a school is to continue developing responsible and independent learners who are well prepared for the next stage of their education and beyond. Positive and respectful behaviour is central to this, and a strong partnership between school and home is essential in ensuring the best outcomes for all pupils. By working together, we can foster a culture where respect, a sense of belonging and pride are central to every learner's experience. We greatly value your continued support and look forward to working with you in partnership for the benefit of every learner.

We would appreciate your support in ensuring that your child attends school each day in the correct uniform. We have plans to further raise standards of uniform; however, it is important that this is done in a collaborative and inclusive way. During this term, we will begin by gathering pupil voice on the first Monday back, before considering the views of parents, staff and governors. Our aim is to ensure that the school uniform promotes a strong sense of belonging and pride, while maintaining high standards.

Attendance remains a key factor in pupil success, and I am pleased to report that our attendance rate currently stands at approximately 92%, placing the school among the highest in the county. It is important that we maintain this standard, and we kindly ask for your support in ensuring your child attends school every day wherever possible. We discourage holidays during term time.

As part of our ongoing digital developments, from 17 April 2026 the school will no longer use ClassCharts and will move to a new management information system, Bromcom. This includes the My Child at School (MCAS) parent app and a dedicated Bromcom Student App. The new system will allow parents and pupils to access key information such as attendance, behaviour, timetables, assessment information and school communications through one secure platform. Instructions on how to download and activate the MCAS app have already been shared with parents, and pupils have received guidance on accessing the Student App. We kindly ask that all parents and pupils ensure the relevant app is set up before 17 April to support a smooth transition. If you require any assistance, please contact the school office, where a member of staff will be happy to help.

Ysgol Gyfun Gŵyr
Gorau byw cyd-fyw

I would also like to thank those of you who have already contributed to the Voluntary School Fund and encourage others to consider doing so if possible. These contributions are invaluable in supporting the continued provision of high-quality education and opportunities for our learners.

Finally, we kindly ask that parents and carers contact the school during normal working hours wherever possible. If you wish to arrange a face-to-face meeting with a member of staff, please make an appointment in advance rather than arriving unannounced. Of course, we understand that urgent matters may arise and will respond accordingly.

In closing, I would like to thank you for your continued support. By working together, we can ensure that every learner reaches their full potential and feels proud to be part of our school community. We look forward to another successful final term.

To keep up to date with school news and celebrate our successes, please follow our Facebook page: https://facebook.com/yggwyr

Yours sincerely,

Sara Thomas

Interim Headteacher

Ysgol Gyfun Gŵyr
Gorau byw cyd-fyw

**<u>Dyma rai dyddiadau pwysig i chi eu nodi /Please note the following important dates for the summer term:</u>**

- **Twrnament Rygbi'r Urdd / Urdd Rugby Tournament** – 20–24 Ebrill / April
- **Gŵyl y Banc / Bank Holiday** – 4 Mai / May
- **Arholiadau TGAU/TAG yn dechrau / GCSE & GCE exams begin** – 7 Mai / May
- **Cystadlaethau chwaraeon yr haf / Summer sports competitions**– 22 Mai / May
- **Hanner Tymor / Half Term** – 25–29 Mai / May
- **Adroddiadau Blwyddyn 7 / Year 7 Reports** – 2 Mehefin / June
- **Noson Rhieni Blwyddyn 7 / Year 7 Parents' Evening** – 9 Mehefin / June
- **Profion Cenedlaethol / National Tests** – 15 Mehefin – 3 Gorffennaf / June–July
- **Pythefnos BAC/Addysg Bellach Blwyddyn 12 / Year 12 BAC & Further Education fortnight** – 29 Mehefin – 10 Gorffennaf / June–July
- **Adroddiadau Blwyddyn 10 / Year 10 Reports** – 13 Gorffennaf / July
- **Gwobr Dug Caeredin Efydd / Duke of Edinburgh Bronze Award** – 11 Gorffennaf / July
- **Gwobr Dug Caeredin Aur / Duke of Edinburgh Gold Award** – 13–17 Gorffennaf / July
- **Taith Disneyland Paris Blwyddyn 9 a'r Goleudy / Year 9 & Lighthouse Disneyland Paris Trip** – 12–15 Gorffennaf / July
- **Tripiau/gweithgareddau amrywiol / Various trips/activities** – 13–16 Gorffennaf / July
- **Ysgol yn cau am yr haf / School closes for the summer** – 17 Gorffennaf / July

Pennaeth Gweithredol: Mrs Sara Thomas
Stryd Talbot, Tre-gŵyr, Abertawe, SA4 3DB Ffôn: (01792) 872403
E-bost: ysgol.gyfun.gwyr@swansea-edunet.gov.uk | https://www.yggwyr.org.uk

Gwobr Cwricwlwm Ysgolion
Schools Curriculum Award
Heartbeat Award Gwobr Curiad Calon
The Dyslexia Friendly School Standards
SportsMarc
Investors in People | Buddsoddwyr Mewn Pobl
We Are A ... Fairtrade School
Rydyn Ni'n Ysgol... Masnach Deg